



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyfrgelloedd cysylltiedig ac uchelgeisiol:

Chweched fframwaith ansawdd Safonau
Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020

Cynnwys

3

Rhagair

4

1. Cyflwyniad

10

2. Hawliau craidd

12

3. Dangosyddion
ansawdd

22

4. Adrodd,
monitro ac asesu

24

5. Deddf Llesiant
Cenedlaethau'r
Dyfodol

26

6. Llyfrgelloedd a
reolir gan y gymuned

Rhagair

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn cysylltu pobl, gwybodaeth a diwylliant. Mae gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol hen hanes o weithio'n dda gyda'i gilydd i sicrhau cyflawni amcanion uchelgeisiol ar gyfer ein gwasanaethau llyfrgell. Rwy'n falch iawn o gael cydweithio ag awdurdodau lleol ar fframwaith newydd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus o ansawdd uchel i ddinasyddion Cymru.

Fel y gŵyr defnyddwyr llyfrgelloedd, mae llyfrgelloedd yn cynnig cyfoeth o wybodaeth, adnoddau, gweithgareddau a chyfleoedd diwylliannol i bawb. Maent yn llefydd uchelgais a dysg lle gall pobl ennill sgiliau newydd, gan arwain at lwyddo mewn swyddi a ffynnu; maent yn annog pobl i fod yn egniol ac yn iach trwy amrywiaeth o bartneriaethau a gwasanaethau gwybodaeth iechyd; maent yn cysylltu ac yn uno pobl, nid yn unig â'i gilydd ac â chymunedau lleol, ond hefyd â diwylliant a'r byd tu hwnt i Gymru. Yn ogystal, maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae pob rhan o'r sector cyhoeddus yn wynebu cryn bwysau ariannol, gan gynnwys gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng disgwyliadau dinasyddion i gael gwasanaeth llyfrgell o ansawdd uchel, a'r hyn sy'n ymarferol ac yn bosibl ei gyflawni, ochr yn ochr â'r gofyniad statudol i ddarparu gwasanaeth "cynhwysfawr ac effeithlon" fel y nodir yn Neddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

Mae fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn rhoi mecanwaith i alluogi darparwyr gwasanaethau i gynllunio eu darpariaeth, ac i'r cyhoedd wybod beth y gallant ei ddisgwyl gan eu gwasanaeth llyfrgell. Mae'r fframwaith hefyd yn rhoi modd i mi asesu darpariaeth a pherfformiad gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru fel rhan o'm dyletswydd statudol o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

Rwy'n falch bod y fframwaith newydd hwn yn cynyddu'r pwyslais ar fesur effaith a chanlyniadau er mwyn helpu i nodi manteision ehangach defnyddio gwasanaeth llyfrgell. Yn ogystal â hyrwyddo'r Safonau er mwyn gwneud ein gwasanaethau llyfrgell mor gynaliadwy ac effeithlon ag y bo modd, bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r model consortia rhanbarthol a amlinellwyd yn yr Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus a'r adroddiad Pennu Cwmpas Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus Newydd i Gymru.

Rwy'n croesawu'r fframwaith newydd hwn i'r Safonau a'r cyfleoedd a ddaw yn ei sgil i barhau â'r bartneriaeth gadarnhaol rhwng Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i barhau i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus cysylltiedig ac uchelgeisiol rhagorol yng Nghymru.

Ken Skates, AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith



1. Cyflwyniad

“Mae Rhyddid, Ffyniant a Datblygiad cymdeithas ac unigolion yn werthoedd dynol sylfaenol. Ni ellir eu cyflawni ond trwy ddinasyddion gwybodus yn gallu arfer eu hawliau democrataidd a chwarae rhan weithredol mewn cymdeithas. Mae cymryd rhan yn adeiladol a datblygu democratiaeth yn dibynnu ar addysg foddhaol yn ogystal ag ar fynediad am ddim a heb gyfyngiad i wybodaeth, syniadau, diwylliant a gwybodaeth.

“Mae llyfrgell gyhoeddus yn borth lleol i wybodaeth, ac mae’n cynnig yr amodau sylfaenol ar gyfer dysgu gydol oes, gwneud penderfyniadau yn annibynnol a datblygiad diwylliannol yr unigolyn a grwpiau cymdeithasol.”¹

1.1. Buddion a manteision defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus

Mae ymgysylltiad gwasanaeth llyfrgell ag unigolion, yn ogystal â'r gymuned ehangach, yn sbarduno buddion llawer o feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, megis ffyniant, cydnerthedd, cydraddoldeb, cymunedau cydlynol, diwylliant, dysgu, ac iechyd a lles. Mae'r modd y mae llyfrgell yn rhyngweithio â'i rhanddeiliaid – sef defnyddwyr (a darpar ddefnyddwyr) y gwasanaeth yn bennaf – yn allweddol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Mae canfyddiadau defnyddwyr am y gwasanaethau sydd ar gael yn deillio o'u profiadau.

Bydd llyfrgelloedd sy'n ymgysylltu'n briodol â'u cwsmeriaid yn cynnig y budd mwyaf posibl i unigolion a'r gymuned. Yn ogystal â darparu hyfforddiant a chymorth dysgu i unigolion, mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at gymdeithas mewn ffyrdd eraill hefyd, megis darparu mynediad at gyfrifiaduron ac e-lywodraeth i aelodau'r gymuned sydd wedi'u hallgáu'n ddiogel.

Mae gan lyfrgelloedd cyhoeddus rôl allweddol mewn cynhwysiad cymdeithasol. Efallai mai dyma'r unig le yn y gymuned lle gall defnyddwyr dreulio amser mewn

amgylchedd diogel a niwtral. Mae cefnogi pobl i chwilio am waith yn cyfrannu at yr economi yn lleol ac yn genedlaethol. Trwy ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau arbenigol i'r bobl hynny yn y gymuned sydd efallai ag anghenion arbennig, mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at iechyd a lles. Ni chyflawnir buddion o'r fath oni bai fod y llyfrgell yn cynnig mynediad cyfartal i bawb. Bellach mae'n haws cael gafael ar lawer o wybodaeth ar-lein – ac yn wir mae peth o'r wybodaeth honno ar gael ar-lein yn unig – ac mae llyfrgelloedd mewn sefyllfa unigryw i hwyluso mynediad at adnoddau a allai fod yn rhy ddrud i unigolion (e.e. cost caledwedd sylfaenol, mynediad i'r Rhynggrwyd neu danysgrifio i adnoddau).

Mae gan lyfrgelloedd rôl allweddol wrth ddarparu gwybodaeth a'i hyrwyddo i bobl o bob oed a chefnidir, yn ogystal ag wrth ddatblygu eu sgiliau. O gamau cyntaf plant yn gwrando ar storïau a dysgu darllen, i ddarparu manau tawel ar gyfer astudio, a chefnogi pobl hŷn i ddefnyddio technolegau newydd, mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at gyflawni targedau llythrennedd, llythrennedd gwybodaeth a chynhwysiant digidol.



Mae llyfrgelloedd da yn chwarae rhan bwysig wrth lunio barn pobl am eu llywodraeth leol. Er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd i'r cyhoedd, mae'n rhaid i lyfrgelloedd gael arweiniad gweithredol a rhaglen ddatblygu er mwyn eu galluogi i ymateb yn amserol i newid yn anghenion gwybodaeth a diwylliannol eu cymunedau lleol. Mae'n rhaid i staff feddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i ddarparu gwasanaethau a diwallu anghenion y cwsmer, a hynny wedi'i arddangos drwy gymwysterau proffesiynol priodol. Mae gan lyfrgelloedd y cyfle i gyfrannu at ystod o agendâu ehangach llywodraeth leol a chenedlaethol, ond bydd hyn ond yn digwydd os yw'r llyfrgell yn rhagweithiol wrth hyrwyddo ei rôl, yn seiliedig ar weledigaeth gref sy'n gysylltiedig â'r agendâu hynny.

1.2. Beth mae hyn yn ei olygu i bobl Cymru

Mae chweched fframwaith safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn adeiladu ar ddatblygiadau yn y pumed fframwaith. Mae'n cynnwys 12 hawl graidd ac 16 dangosydd ansawdd i fonitro pa mor dda y mae'r gwasanaethau llyfrgell yn cyflawni'r buddion hyn i bobl Cymru. Nid yw'r mapio rhwng buddion a dangosyddion yn syml, gan nad oes modd cael mesur uniongyrchol o ganlyniadau ac effeithiau ar lefel y gwasanaeth cyfan, ond yn hytrach rhaid eu casglu o ddangosyddion ehangach.

Mae'r tabl isod yn dangos y dangosyddion yn y fframwaith hwn sy'n bennaf gysylltiedig â'r prif fuddion a geir yn sgil defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus. Bydd llyfrgelloedd sy'n perfformio'n dda ar y dangosyddion hyn yn ymgysylltu'n briodol â'u cwsmeriaid i wneud gwahaniaeth i'w bywydau.

Canlyniadau ac effeithiau	Hawliau craidd	Dangosyddion ansawdd
Bydd pobl yng Nghymru yn gallu cynyddu eu gwybodaeth/sgiliau ar ôl defnyddio'r llyfrgell	2, 3	1, 3, 5
Bydd pobl yng Nghymru yn gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau darllen a digwyddiadau diwylliannol eraill sydd wedi'u trefnu gan y gwasanaeth llyfrgell	3	4, 6, 9, 10, 12
Bydd pobl yng Nghymru yn teimlo'n rhan o gymuned yn defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell	3, 11	1, 7, 8
Bydd pobl yng Nghymru yn gallu manteisio ar y cyfleoedd a gynigir yn y byd digidol drwy ddefnyddio'r gwasanaeth llyfrgell	2, 6, 7	4, 9, 11
Mae iechyd a lles personol yn cryfhau drwy ddefnyddio'r llyfrgell	3, 4	1, 4
Gall pobl yng Nghymru gymryd rhan yn llawnach mewn materion lleol drwy'r cyfleusterau yn y llyfrgell	3, 6	3, 11

Mae hawliau craidd a dangosyddion ansawdd eraill yn ymwneud â rheoli gwasanaethau yn effeithiol, sy'n sail i gyflawni'r canlyniadau a'r effeithiau yn effeithiol. Gellir cysylltu'r cyfan ohonynt ag un neu ragor o'r saith nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; mae'r manylion i'w cael yn Rhan 5.

1.3. Cyflawni'r ddyletswydd statudol

Mae Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964² yn ei gwneud yn ddyletswydd ar y Gweinidogion perthnasol yng Nghymru (sef Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar hyn o bryd) **"i arolygu a hyrwyddo gwella'r gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau lleol... ac i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni'r swyddogaethau yn briodol mewn perthynas â llyfrgelloedd a roddwyd iddynt fel awdurdodau llyfrgelloedd gan y Ddeddf hon"**.

O dan yr un Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau llyfrgelloedd **"ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon i bob person sy'n dymuno gwneud defnydd ohono"**.

Ers 2002, mae Gweinidogion Cymru wedi cyflawni'r ddyletswydd hon drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLICC, neu'r Safonau). Roedd y fframwaith cyntaf yn rhedeg o 2002 hyd at 2005, a fframweithiau dilynol yn cwmpasu'r cyfnodau 2005-08, 2008-11, 2011-14 a 2014-17. Roedd pob fframwaith unigol wedi esblygu i adlewyrchu anghenion a disgwyliadau newidiol defnyddwyr llyfrgelloedd cyhoeddus. Yn ogystal â chyflawni dyletswyddau statudol, mae fframwaith SLICC yn chwarae rôl werthfawr wrth gefnogi datblygiad gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus.

Mae consensws cyffredinol ymysg rhanddeiliaid sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru fod y fframweithiau mesur

perfformiad hyn, a gyflwynwyd ac a weinyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y sector, wedi helpu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus i wella mewn nifer o ffyrdd ac mewn meysydd allweddol. Er enghraifft, o ganlyniad i'r Safonau, cafwyd gwelliannau sylweddol mewn meysydd gwasanaeth megis cyflenwi ceisiadau a darparu cyfleusterau a gwasanaethau TGCh, gan arwain at ganlyniadau gwell i gwsmeriaid llyfrgelloedd.

Mae dyletswydd statudol (o dan adran 7 y Ddeddf) ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaeth llyfrgell ac i annog oedolion a phlant i wneud defnydd llawn o'r gwasanaeth llyfrgell hwnnw. Bydd y dangosyddion perfformiad a restrir yma yn helpu Llywodraeth Cymru i asesu a yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf 1964 ai peidio, ac i asesu pa mor gynhwysfawr ac effeithlon, o ran y dull darparu gwasanaeth, yw gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru.



1.4. Llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned

Ers tua 2014, cynyddu y mae nifer y llyfrgelloedd annibynnol a lled-annibynnol yng Nghymru, sef llyfrgelloedd y cyfeirir atynt yn aml fel rhai a reolir gan y gymuned. Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 ar lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned bellach wedi'u diweddarau ac wedi'u cynnwys yma, yn Rhan 6, yn hytrach nag mewn dogfen ar wahân, fel o'r blaen. Mae'n cynnwys meini prawf i'w cyflawni er mwyn gallu cynnwys llyfrgell a reolir gan y gymuned fel rhan o'r gwasanaeth statudol yn ffurflen flynyddol y gwasanaeth llyfrgell, a cheir manylion am y data sydd i'w darparu ar yr holl lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned.

1.5. Y chweched fframwaith ansawdd

Mae amcanion y chweched fframwaith hwn ar gyfer Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru fel a ganlyn:

- galluogi Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i gyflawni gofynion statudol Deddf 1964 o ran arolygu bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth llyfrgell 'cynhwysfawr ac effeithlon';
- darparu asesiad cadarn o berfformiad gwasanaethau llyfrgelloedd;
- bod â chysylltiadau clir â rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethu,³ er mwyn sicrhau hygyrdd ar draws llywodraeth leol yng Nghymru;
- bod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i holl wasanaethau llyfrgell yr awdurdodau lleol yng Nghymru;
- bod yn dryloyw, yn hawdd ei ddeall ac yn cael ei dderbyn gan yr holl randdeiliaid;
- ymgorffori dulliau mesur canlyniadau er mwyn dangos manteision defnyddio llyfrgelloedd;
- gweithredu fel sbardun ar gyfer gwella gwasanaethau llyfrgell a chymunedau lleol; a
- lleihau baich casglu data ar awdurdodau llyfrgell.

³ Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, ar gael yn <http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf>

Mae'r fframwaith yn seiliedig gan mwyaf ar y pumed fframwaith, ac wedi'i ddiweddarau i gymryd i ystyriaeth fod amgylchedd awdurdodau lleol wedi newid sef yr amgylchedd y mae'n rhaid i wasanaethau lleol weithio o'i fewn, ac mae'n parhau i roi cyfleoedd i lyfrgelloedd ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd arloesol yn ogystal â rhoi'r hyblygrwydd iddynt wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Bydd yn dod i rym ar 1af Ebrill 2017, a bydd llyfrgelloedd yn llunio eu hadroddiad cyntaf yn erbyn ei ofynion yn ystod haf 2018. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r fframwaith newydd yn fanwl.

Mae **Rhan 2** yn rhestru'r 12 hawl graidd, a bydd awgrymiadau hunanasesu yn cael eu darparu yn y canllawiau i staff llyfrgelloedd.

Mae **Rhan 3** yn disgrifio'r 16 dangosydd ansawdd, sydd o dri math cyffredinol:

- Mae dangosyddion mewnbwn yn ymwneud yn bennaf â'r hyn y bydd y gwasanaeth llyfrgell yn ei ddarparu i ddinasyddion Cymru mewn meysydd allweddol er mwyn gallu cyflawni'r hawliau craidd.
- Mae dangosyddion allbwn yn ymwneud â lefelau defnydd. O'u hystyried ochr yn ochr â dangosyddion mewnbwn, gallant roi syniad o effeithlonrwydd cyflenwi'r gwasanaeth.
- Mae dangosyddion canlyniadau ac effaith yn mesur effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol y gwasanaeth llyfrgell ar ei ddefnyddwyr, ac ar y gymuned ehangach. Maent yn dangos y gwahaniaeth y mae llyfrgelloedd yn ei wneud i fywydau pobl.

Adroddir am y rhan fwyaf o'r dangosyddion bob blwyddyn; efallai nad adroddir am eraill ond unwaith yn ystod y cyfnod tair blynedd, er enghraifft, pan fo angen data o arolwg defnyddwyr. Ar gyfer rhai dangosyddion, gosodir targedau ffurfiol, er nad yw targedau o'r fath yn briodol ym mhob achos.



Bydd disgwyl i lyfrgelloedd gymharu eu perfformiad yn yr holl ddangosyddion â blynyddoedd blaenorol, a chyrraedd y targedau pan fo'r rhain wedi'u gosod. Bydd meincnodi awdurdodau yn bosibl pan fydd yr holl ganlyniadau ar gael.

Gall daearyddiaeth, dosbarthiad y boblogaeth a ffactorau eraill o fewn awdurdodau unigol achosi amrywiadau mawr yn y dulliau sydd eu hangen i gynllunio a darparu gwasanaethau llyfrgell. Oherwydd hyn, cynigir dewisiadau eraill i awdurdodau llyfrgelloedd Cymru fesur eu gwasanaethau yn eu herbyn o ran rhai o'r dangosyddion a ddisgrifiwyd, a dylent ddewis yr un sydd mwyaf priodol i adlewyrchu eu hamgylchiadau.

Ni fanylir yn y ddogfen hon ar ddiffiniadau o'r termau amrywiol a ddefnyddir na rhoi canllawiau ar y dulliau casglu data; mae'r rhain, serch hynny, wedi'u cynnwys



gyda'r templed adrodd a roddwyd i'r gwasanaethau llyfrgell, ac maent ar gael o ofyn amdanynt⁴. Ym mhob achos, rhoddir canllawiau manwl i awdurdodau llyfrgelloedd ynghylch casglu data a chyfrifo er mwyn sicrhau cysondeb a modd cymharu. Mae data sy'n bodoli'n barod i'w ddefnyddio lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. Pan fo'n briodol, mabwysiadwyd diffiniadau a dulliau sy'n safonol yn rhyngwladol.

Mae **Rhan 4** y ddogfen hon yn manylu ar y gofynion adrodd, sy'n cynnwys elfen o hunanwerthuso ac adrodd disgrifiadol yn ogystal â'r prif ystadegau gwasanaeth a'r dangosyddion perfformiad, ac mae'n disgrifio'r broses monitro ac asesu. Ystyri'r yr asesiad o safbwynt cyfannol. Caiff perfformiad llyfrgelloedd ei bwysu a'i fesur ar sail holl agweddau'r fframwaith, gan gynnwys cydymffurfio â'r hawliau craidd,

safe ar y dangosyddion ansawdd, nifer y dangosyddion ansawdd a gyflawnwyd yn llawn ac yn rhannol, a'r naratif sy'n rhoi tystiolaeth o effaith y gwasanaeth ar unigolion a'r gymuned.

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd yn rhychwantu ystod o ganlyniadau Llywodraeth Cymru, gan gynnig ystod o wasanaethau sy'n aml yn cefnogi dau ganlyniad neu ragor ar yr un pryd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol⁵ yn rhestru saith maes blaenoriaeth cyffredinol, ac mae **Rhan 5** y ddogfen fframwaith hon yn alinio'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd â'r meysydd hyn, gan roi enghreifftiau o'r cyfraniad a wna'r gwasanaeth llyfrgell.

⁴ Gweler <http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/museums-archives-libraries/?skip=1&lang=cy> i gael manylion

⁵ Gweler <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy> i gael manylion

2. Hawliau craidd

Cafodd casgliad o hawliau craidd llyfrgell ar gyfer dinasyddion Cymru eu hymgorffori yn gyntaf yn Gwneud Gwahaniaeth, sef pumed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Mae'r hawliau hyn bellach wedi cael eu diwygio a newid eu ffocws ar gyfer y chweched fframwaith hwn, er mwyn rhoi modd i'r cyhoedd wybod beth y gallant ei ddisgwyl gan eu gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus.

Caiff yr hawliau hyn yn y lle cyntaf eu hunanasesu gan bob awdurdod. Pennir nifer o gwestiynau yn y ddogfen Canllawiau, a rhaid i'r awdurdod ystyried y rhain wrth wneud eu hunanasesiad. Nid oes angen gallu ateb pob cwestiwn yn gadarnhaol i gyflawni'r hawl graidd, ond dylid darparu cyfiawnhad dros yr asesiad, a allai gyfeirio at ddarpariaeth berthnasol arall. Caiff yr hunanasesiad ei gymedroli gan IAALL, yr Ymgynghorydd Annibynnol, a Grŵp Cyfeirio bychan o uwch lyfrgellwyr i sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau.

Mae HCSLICC yn golygu Hawliau Craidd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

HCSLICC 1 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.

HCSLICC 2 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.

HCSLICC 3 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, cyfranogiad cymunedol, a diwylliant a hamdden.

HCSLICC 4 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.

HCSLICC 5 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.

HCSLICC 6 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.

HCSLICC 7 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys Wi-Fi, yn rhad ac am ddim.

HCSLICC 8 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.

HCSLICC 9 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.

HCSLICC 10 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.

HCSLICC 11 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.

HCSLICC 12 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.



3. Dangosyddion ansawdd



Mae'r dangosyddion ansawdd yn y chweched fframwaith hwn yn adeiladu ar y fframwaith blaenorol, ac yn cynnwys mesurau ychwanegol i gynnwys dulliau mesur canlyniadau ac effaith y gwasanaeth llyfrgell. Maent yn rhannu'n ddau brif fath; y rhai sy'n cael eu darparu er mwyn monitro a meincnodi perfformiad dros amser a rhwng awdurdodau, a'r rhai sydd â thargedau penodol. Mae DASLICC yn golygu Dangosyddion Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

DASLLCC 1 Gwneud gwahaniaeth

Mae'r detholiad hwn o ddangosyddion yn asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er bod rhai yn berthnasol i feysydd eraill yn y fframwaith hwn, maent wedi'u grwpio yma gyda'i gilydd gan eu bod yn allweddol i brofiad cyffredinol y cwsmer.

Bydd awdurdodau yn adrodd am y canlynol, o leiaf unwaith yn y cyfnod tair blynedd:

- a) canran yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd;
- b) canran y bobl ifanc sy'n meddwl bod defnyddio'r llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau;
- c) canran yr oedolion sydd wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch iechyd a lles yn y llyfrgell;
- d) canran yr oedolion sy'n teimlo bod y llyfrgell yn lle diogel a chroesawgar i ymweld â hi;
- e) canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.

Caiff data ei gasglu o holiaduron i ddefnyddwyr sy'n oedolion ac yn blant, a

dylid cynnal yr arolygon yn unol ag arferion ystadegol da, o leiaf unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith hwn. Rhoddir arweiniad i awdurdodau ynghylch cynnal yr arolwg a geiriad y cwestiynau i sicrhau bod modd cymharu. Wrth gyfrif, ni ddylid cynnwys ymatebwyr sy'n ateb 'ddim yn berthnasol' neu 'ddim yn gwybod'. Gall awdurdodau gynnal arolygon yn amlach os dymunant ac adrodd yn unol â hynny.

DASLLCC 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid

Mae bodlonrwydd cwsmeriaid yn elfen allweddol o berfformiad llyfrgell. Fel yn achos y dangosyddion sy'n ymwneud ag effaith llyfrgell (DA 1), mae rhai o'r rhain yn berthnasol i feysydd eraill y fframwaith hwn, ond maent wedi'u grwpio yma gyda'i gilydd gan eu bod yn allweddol i brofiad cyffredinol y cwsmer.

Bydd awdurdodau'n adrodd am y canlynol:

- a)** canran yr oedolion sy'n credu bod y dewis o lyfrau sydd ar gael yn y llyfrgell a ddefnyddir ganddynt yn 'dda iawn' neu'n 'dda';
- b)** canran yr oedolion sy'n credu bod safon y gofal cwsmeriaid yn y llyfrgell a ddefnyddir ganddynt yn 'dda iawn' neu'n 'dda';
- c)** canran yr oedolion sy'n credu bod y cyfleusterau TG yn y llyfrgell a ddefnyddir ganddynt yn 'dda iawn' neu'n 'dda';
- d)** canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell a ddefnyddir ganddynt yn 'dda iawn' neu'n 'dda' yn gyffredinol;
- e)** sgôr gyffredinol allan o ddeg ar gyfartaledd a roddwyd gan ddefnyddwyr 16 oed neu iau i'r llyfrgell a ddefnyddir ganddynt.

Caiff data ei gasglu o holiaduron i ddefnyddwyr sy'n oedolion ac yn blant, a dylid cynnal yr arolygon yn unol ag arferion ystadegol da, o leiaf unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith hwn. Sylweddolir nad yw pob awdurdod am ddefnyddio casgliad offer arolwg CIPFA PLUS (y mae'r dangosyddion uchod

wedi'u codi ohono), a dosbarthir canllawiau i sicrhau bod awdurdodau sy'n dewis defnyddio eu harolygon eu hunain yn cael canlyniadau y gellir eu cymharu ag eraill. Gall awdurdodau gynnal arolygon yn amlach os dymunant ac adrodd yn unol â hynny.

DASLLCC 3 Cymorth ar gyfer datblygiad unigol

Dylai llyfrgelloedd wneud yn siŵr fod y gwasanaethau canlynol yn cael eu cynnig yn yr holl fannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy:

- a)** cymorth sylfaenol i ddefnyddio'r seilwaith TGCh a gynigir (gan gynnwys y rhwydwaith Wi-Fi) a chymorth i gael gafael ar y rhychwant o adnoddau gwybodaeth electronig sydd ar gael;
- b)** hyfforddiant i wella sgiliau llythrennedd, rhifedd, digidol a gwybodaeth, a chymorth i ddatblygu neu wella gallu i ganfod a chael mynediad at adnoddau priodol yn effeithlon ac yn effeithiol; gwerthuso gwybodaeth yn feirniadol; a chymhwysu gwybodaeth yn briodol i amcanion pellach, megis addysg, cyflogaeth, iechyd a lles.

Gellid datblygu rhaglenni hyfforddi a'u cyflwyno gyda phartneriaid priodol y tu allan i'r gwasanaeth llyfrgell;

- c)** cymorth i ddefnyddwyr gael gafael ar adnoddau e-lywodraeth lleol a chenedlaethol;
- d)** rhaglenni/gweithgareddau datblygu darllenwyr ar gyfer oedolion a phlant.

Dylai fformat y cymorth a gynigir, a pha mor aml y cynhelir unrhyw sesiynau penodol a drefnir, fod yn briodol o ystyried maint y man gwasanaeth ac anghenion y gymuned leol.

DASLLCC 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles

- a)** Bydd llyfrgelloedd yn sicrhau bod y gwasanaethau canlynol yn cael eu cynnig ym mhob man gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy:
 - i. Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru
 - ii. Cynllun Llyfrau Llesol Cymru



- iii. Casgliad penodol ar iechyd a lles
- iv. Gwybodaeth am ffyrdd o fyw iachach ac ymddygiad iach – taflenni, llyfrau ac ati
- v. Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles

b) Mae awdurdodau i adrodd sawl man gwasanaeth sefydlog ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy y mae'r gwasanaethau canlynol ar gael yn rheolaidd ynddynt:

- i. Grwpiau Darllen ar y Cyd (darllen yn uchel gyda'i gilydd)
- ii. Clybiau llyfrau (trafod llyfr penodol)
- iii. Canser Macmillan neu bartneriaethau eraill yn ymwneud â gwybodaeth iechyd
- iv. Gwasanaethau Dementia Gyfeillgar
- v. Gweithgareddau ymwybyddiaeth iechyd meddwl

DASLLCC 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr

Mae'r dangosydd hwn yn asesu i ba raddau y mae sesiynau a gynigir yn cyd-fynd ag angen yn lleol, ac effaith y sesiynau hynny ar y cyfranogwyr. Dylid cynnwys sesiynau datblygu darllenwyr; sesiynau sgiliau llythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a digidol; sesiynau TGCh, a.y.y.b., gan gynnwys sesiynau a drefnir ar y cyd ag asiantaethau partner. Gall hyfforddiant i ddefnyddwyr fod â chynulleidfa gyffredinol, neu gall fod wedi'i dargedu at is-grwpiau penodol yn y boblogaeth e.e. plant, gofalwyr, pobl ddi-waith, ac ati.

Gall fod angen cofrestru ymlaen llaw i'r sesiynau, neu gallent fod yn agored i bawb ar sail galw heibio. Dylid hefyd gynnwys sesiynau a adroddir o dan DASLLCC 4.

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a)** cyfanswm y nifer a fynychodd sesiynau hyfforddi defnyddwyr sydd wedi'u cynnal ac/neu eu trefnu ymlaen llaw gan y gwasanaeth llyfrgell yn ei fannau gwasanaeth ei hun neu mewn lleoliadau eraill o fewn yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000;



- b)** canran y rhai sydd wedi mynychu'r sesiynau hyn a ddywedodd fod mynychu wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion;
- c)** nifer y cwsmeriaid sydd wedi cael cymorth drwy gael hyfforddiant anffurfiol yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000.

Yn ddefnyddiol, dylai rhan b) y dangosydd hwn darparu o ffurflen adborth syml a roddir i bawb a fynychodd sesiwn, er y gall fod yn seiliedig ar sesiynau yn ystod un cyfnod samplu neu fwy. Gall rhan c) y dangosydd ddod o samplu. Rhoddir arweiniad i awdurdodau i sicrhau cysondeb wrth adrodd.

DASLLCC 6 Nifer y defnyddwyr yn mynychu digwyddiadau llyfrgell

Diben y dangosydd hwn yw amcangyfrif pa mor atyniadol yw digwyddiadau llyfrgell i'r boblogaeth y mae'r llyfrgell i'w gwasanaethu, ac i ba raddau y mae digwyddiadau o'r fath yn bodloni angen lleol.

- a)** Bydd awdurdodau'n adrodd am gyfanswm y nifer a fynychodd digwyddiadau a gweithgareddau a drefnwyd gan y gwasanaeth llyfrgell yn ei fannau gwasanaeth ei hun neu mewn lleoliadau

eraill o fewn yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000.

Mae digwyddiadau yn cynnwys yr holl ddigwyddiadau sydd â bwriad llenyddol, diwylliannol neu addysgol, e.e. ymweliadau gan awduron, grwpiau darllen, trafodaethau llenyddol, gweithdai llythrennedd digidol a gwybodaeth, gweithdai hel achau, llythrennedd iechyd, llythrennedd ariannol, chwilio am swydd ac ati.

Mae digwyddiadau yn benodol ar gyfer plant wedi'u cynnwys, megis adrodd stori, barddoniaeth, cerddoriaeth. Dylid cynnwys digwyddiadau a gynhelir gan sefydliadau partner mewn cydweithrediad â'r gwasanaeth llyfrgell.

- b)** Bydd llyfrgelloedd yn sicrhau bod digwyddiadau neu weithgareddau ar gyfer pobl sydd ag anghenion arbennig yn cael eu cynnig ym mhob man gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy. Gellir hyrwyddo'r digwyddiadau neu weithgareddau yn benodol ar gyfer grŵp bwriadol, neu fod yn agored i bawb, ond bod ganddynt grŵp targed clir mewn golwg.

Gall gofynion arbennig gynnwys nam corfforol ac amhariad ar iechyd, anfantais economaidd (e.e. di-waith hirdymor), gwahaniaethau diwylliannol (e.e. siaradwyr anffurfiol, newydd-ddyfodiaid), cefndir addysgol, neu amgylchiadau eraill sydd angen gwasanaethau llyfrgell arbennig. Dylai awdurdodau roi enghreifftiau penodol o ddigwyddiadau o'r fath a rhestru cydweithio â sefydliadau a phartneriaid cynhwysiant cymdeithasol perthnasol.

DASLLCC 7 Lleoliad manau gwasanaeth

Ni wneir unrhyw amod ynghylch lleiafswm oriau agor llyfrgelloedd sefydlog (fesul safle), fodd bynnag gofynnir i awdurdodau ystyried pa mor ymarferol a hyfyw yw manau gwasanaeth sydd ar agor am lai na 10 awr yr wythnos. Yn yr un modd, ni wneir unrhyw amod ynghylch pa mor hir y mae llyfrgell deithiol mewn arhosfan neu ba mor

aml y mae'n mynd yno, ond disgwylir y bydd llyfrgelloedd teithiol yn ymweld â phob arhosfan a drefnwyd o leiaf 12 gwaith y flwyddyn. Bydd awdurdodau yn sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol o ran lleoliad manau gwasanaeth ac arosfannau llyfrgelloedd teithiol, yn ôl dwysedd eu poblogaeth:

Dwysedd y boblogaeth	% yr aelwydydd	Pellter o'r llyfrgell
20 neu ragor o bobl i bob hectar	O leiaf 95%	O fewn 2 milltir i fan gwasanaeth sefydlog
Mwy nag 1 person ond llai nag 20 i bob hectar	O leiaf 75%	O fewn 2.5 milltir (neu 10 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) i fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol
1 person neu lai i bob hectar	O leiaf 70%	O fewn 3 milltir (neu 15 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) i fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol.

DASLLCC 8 Defnyddio llyfrgell

Gofynnir am saith elfen i fesur y defnydd a wneir ar lyfrgell, sy'n cynnwys defnyddio'r adnoddau ffisegol ac electronig a ddarperir. Gyda'i gilydd, maent yn asesu llwyddiant y llyfrgell o ran denu defnyddwyr i'w wasanaethau.

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a) cyfanswm nifer yr ymweliadau i lyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000;
- b) cyfanswm nifer yr ymweliadau allanol i wefan llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn wedi'i rannu â nifer y boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000;
- c) cyfanswm nifer y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â nifer y boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000.
- d) cyfanswm nifer aelodau'r llyfrgell
- e) cyfanswm nifer y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
- f) cyfanswm nifer yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

g) cyfanswm nifer yr eitemau electronig a lawrlwythwyd.

Y data i'w ddefnyddio yw'r rhai yr adroddwyd amdanynt i CIPFA yn eu ffurflen llyfrgelloedd cyhoeddus hwy.

DASLLCC 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol

Mae'r dangosydd hwn a'r un dilynol wedi'u cynllunio i sicrhau bod buddsoddi digonol a chydbwysedd priodol mewn adnoddau ar draws gwahanol rannau'r gymuned.

- a) Dylai awdurdodau llyfrgell sicrhau
 - naill ai o leiaf 243 eitem am bob 1,000 o bobl yn y boblogaeth breswyl neu wario o leiaf £2,180 am bob 1,000 o bobl yn y boblogaeth breswyl bob blwyddyn.

Mae llyfrau ac e-lyfrau, cyfnodolion, deunydd clyweledol ac adnoddau electronig oll wedi'u cynnwys.

Dylai awdurdodau gynnwys eu cyfraniad i brynu mewn consortiwm os yw hynny'n berthnasol.

b) Bydd awdurdodau llyfrgell yn adrodd

- Canran y gyllideb deunyddiau sydd wedi'i wario ar adnoddau i blant.

DASLLCC 10 Adnoddau yn Gymraeg

Cynlluniwyd y dangosydd hwn i sicrhau bod deunyddiau yn y Gymraeg yn cael eu darparu yn unol â gofynion lleol a nodweddion cymdeithasol-demograffig y boblogaeth.

a) Dylai awdurdodau sicrhau:

Naill ai o leiaf 4% o'r gyllideb deunyddiau, neu, o leiaf £750 am bob 1,000 o bobl yn y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg.

Bydd awdurdodau hefyd yn adrodd:

b) Cyfanswm nifer yr eitemau Cymraeg sy'n cael eu benthyg am bob 1,000 o bobl yn y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg.

DASLLCC 11 Mynediad ar-lein

a) Dylai pob llyfrgell sefydlog ddarparu

- i. O leiaf un ddyfais sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd i'r Rhynggrwyd ac i gynnwys digidol ar y rhwydwaith. Mae cyfrifiaduron, gliniaduron, llechi a dyfeisiau symudol eraill oll wedi'u cynnwys.
- ii. Mynediad Wi-Fi i ddefnyddwyr ddod â'u gliniaduron neu ddyfeisiau symudol eu hunain.

b) Bydd awdurdodau yn adrodd ar gyfanswm nifer y dyfeisiau sy'n rhoi mynediad i'r Rhynggrwyd i'r cyhoedd sydd ar gael

- i. Mewn llyfrgelloedd sefydlog, am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl
- ii. Mewn llyfrgelloedd teithiol.

Mae cyfrifiaduron, gliniaduron, llechi a dyfeisiau symudol eraill oll wedi'u cynnwys.

c) Bydd awdurdodau yn adrodd canran yr amser a neilltuwyd ar gyfer defnyddio

offer TGCh sy'n cynnig mynediad i'r cyhoedd sydd wedi'i ddefnyddio mewn gwirionedd gan y defnyddwyr. Dylai'r rhain gael eu cydgrynhoi ar draws yr holl lyfrgelloedd yn yr awdurdod, gan gynnwys y llyfrgelloedd teithiol.

DASLLCC 12 Cyflenwi ceisiadau

Mae'r dangosydd hwn yn mesur effeithlonrwydd y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus i ymateb i geisiadau am ddeunydd nad yw ar gael ar unwaith.

Dylai awdurdodau sicrhau'r canlynol:

- a)** O leiaf 64% y ceisiadau am ddeunyddiau yn cael eu hysbysu i'r defnyddiwr eu bod ar gael o fewn 7 diwrnod calendr i wneud y cais;
- b)** O leiaf 79% y ceisiadau am ddeunyddiau yn cael eu hysbysu i'r defnyddiwr eu bod ar gael o fewn 15 diwrnod calendr i wneud y cais.

Caiff ceisiadau am ddeunydd cyn eu cyhoeddi eu cyfrif o'r dyddiad cyhoeddi. Rhaid cynnwys deunydd nad yw'n eiddo i'r llyfrgell ond a geir trwy eu prynu neu trwy fenthyg rhwng llyfrgelloedd.

DASLLCC 13 Lefelau staffio a chymwysterau

- i. Rhaid i awdurdodau llyfrgell sicrhau lefel staffio ar gyfer y gwasanaeth o 3.6 (cyfwerth ag amser llawn) am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl. Mae staff nad ydynt yn gweithio yn uniongyrchol i ddarparu gwasanaethau llyfrgell, e.e. glanhawyr, wedi'u heithrio. Dylid cynnwys staff wedi'u talu o gyllideb y gwasanaeth llyfrgell yn unig.
- ii. Ni ddylai cyfanswm nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn) sydd â chymwysterau cydnabyddedig mewn llyfrgellyddiaeth, gwyddor gwybodaeth neu reoli gwybodaeth am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl syrthio yn is na 0.65. Gellir cynnwys staff sydd â chymwysterau



mewn meysydd cytras, megis TGCh, rheoli hamdden neu dreftadaeth neu addysg a dysgu, yn y cyfrifiadau os oes ganddynt swyddi sy'n gofyn am y cymwysterau hynny, a phan fo'r cymwysterau sydd ganddynt yn berthnasol i'w rolau a'u swyddogaethau presennol yn y gwasanaeth llyfrgell. Dylid cynnwys staff wedi'u talu o gyllideb y gwasanaeth llyfrgell yn unig.

- iii. Rhaid i reolwr gweithredol dynodedig y gwasanaeth llyfrgell, naill ai fod â chymwysterau cydnabyddedig mewn llyfrgellyddiaeth, gwyddor gwybodaeth neu reoli gwybodaeth, neu, fod wedi gwneud hyfforddiant perthnasol mewn rheolaeth llyfrgell o fewn y tair blynedd diwethaf.

Bydd awdurdodau hefyd yn adrodd:

- a) ymhle y mae safle'r swydd hon yn strwythur rheoli'r awdurdod lleol;
- b) y swydd sydd gan y llyfrgellydd proffesiynol uchaf ei safle (os yw'n wahanol); ac
- c) ymhle y mae'r swydd honno yn strwythur rheoli'r awdurdod lleol.

- iv. Dylai o leiaf 1% o gyfanswm oriau gwaith staff gael ei dreulio mewn hyfforddiant a datblygiad personol/proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Dylid annog holl staff y llyfrgell i ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad perthnasol i'w rôl a'u cyfrifoldebau, ac i wella eu sgiliau.
- v. Gall awdurdodau llyfrgell gynnig cyfle i aelodau'r gymuned wirfoddoli, i gefnogi gwasanaethau ychwanegol mewn llyfrgelloedd wedi'u rheoli a'u rhedeg gan yr awdurdod llyfrgell. Gall cyfleoedd o'r fath, er enghraifft, wella sgiliau bywyd a chyflogadwyedd unigolion, gan gyfrannu at fynd i'r afael â chanlyniadau tloidi.

Pan fo'r gymuned yn rhan o ddarparu'r gwasanaeth llyfrgell mewn cangen, rydym yn disgwyl bod staff ar gyflog yn gweithio ochr yn ochr â'r gwirfoddolwyr yn y llyfrgell, am beth o'r amser o leiaf.

Mae'n rhaid i awdurdodau llyfrgell sy'n defnyddio gwirfoddolwyr i ddarparu gwasanaethau ychwanegol 'yn fewnol' (yn hytrach nag mewn llyfrgelloedd wedi'u rheoli gan y gymuned) sicrhau'r canlynol:

- bod cydlynnydd gwirfoddolwyr penodol o blith staff proffesiynol parhaol y gwasanaeth llyfrgell yn cydlynau'r rhannau hynny o'r gwasanaeth sy'n cynnwys gweithwyr gwirfoddol;
- bod pob gwirfoddolwr yn derbyn disgrifiad ysgrifenedig o'i rôl;
- y bodlonir gofynion cyfreithiol ar gyfer pob gwirfoddolwr mewn perthynas â'u rôl;
- bod hyfforddiant cynefino a hyfforddiant parhaus yn cael eu rhoi i'r holl wirfoddolwyr;
- bod gwirfoddolwyr yn cael eu goruchwylio'n briodol; ac
- eu bod wedi cyflawni, neu wrthi'n gweithio tuag at, achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.⁶

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a) cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr ar draws y flwyddyn;
- b) cyfanswm nifer oriau gwirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn;
- c) a oes ganddynt statws achrediad sy'n gysylltiedig â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol/NOS neu a ydynt yn gweithio tuag at yr achrediad hwn.

Er mwyn bodloni'r dangosydd hwn yn rhannol, sylwer bod yn rhaid i'r gwasanaeth gyflawni o leiaf tair o'r pum elfen, gan gynnwys (iii) sy'n gysylltiedig â chymwysterau'r rheolwr gweithredol.

DASLLCC 14 Gwariant gweithredol

Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ni chredir ei bod yn briodol gosod targed ar gyfer gwariant llyfrgell, ond parheir i graffu'n fanwl ar y gwariant ar y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus.

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a) cyfanswm y gwariant refeniw am bob 1,000 o'r boblogaeth breswyl;
- b) canrannau'r cyfanswm hwn a wariwyd

⁶ Gweler <http://iiv.investinginvolunteers.org.uk/inyourcountry/iiv-wales> i gael rhagor o wybodaeth



ar staff, deunyddiau ac adnoddau gwybodaeth, cynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu offer ac adeiladau, a chostau gweithredol eraill.

- c)** cyfanswm gwariant cyfalaf am bob 1,000 o'r boblogaeth breswyl.

Dylai awdurdodau sy'n llenwi ffurflen llyfrgelloedd cyhoeddus CIPFA ddefnyddio'r un data yma.

DASLLCC 15 Cost am bob ymweliad

Mae'r dangosydd hwn yn ddefnyddiol wrth gyfiawnhau gwario arian cyhoeddus, gan roi procsi ar gyfer gwerth am arian, ond mae'n rhaid ei ddehongli ar y cyd â dangosyddion demograffig a dangosyddion ansawdd yn ymwneud â defnydd. Mae'n mesur cost y gwasanaeth llyfrgell mewn cysylltiad â nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd, gan gynnwys ymweliadau rhithwir.

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- Cyfanswm y gwariant ar staff llyfrgell a deunyddiau, net yr incwm a gynhyrchwyd, wedi'i rannu â swm nifer yr ymweliadau corfforol â safleoedd llyfrgell (gan gynnwys rhai teithiol) yn ogystal â nifer yr ymweliadau â gwefan y llyfrgell yn ystod y flwyddyn.

Dylai awdurdodau sy'n llenwi ffurflen llyfrgelloedd cyhoeddus CIPFA ddefnyddio'r un data yma. Cyfrifir y gymhareb yn awtomatig o'r data a roddwyd ar gyfer dangosyddion eraill.

DASLLCC 16 Oriau agor

- i. Dylai llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru sicrhau cyfanswm oriau agor dan ofal staff (staff cyflogedig ac/ neu wirfoddolwyr) ledled yr holl fannau gwasanaeth a weinyddir gan yr awdurdod nad yw'n llai na 120 awr y flwyddyn am bob 1,000 o'r boblogaeth breswyl.
- ii. Bydd awdurdodau yn adrodd cyfanswm oriau agor heb fod dan ofal staff ledled yr holl fannau gwasanaeth a weinyddir gan yr awdurdod am bob 1,000 o'r boblogaeth breswyl.
- iii. Mae rhan hon y dangosydd yn ymwneud â pha mor ddigonol yw rhaglen cynnal a chadw'r gwasanaeth llyfrgell a'i strategaeth staffio. Bydd awdurdodau'n adrodd:
 - a) cyfanswm nifer yr oriau yr oedd manau gwasanaeth sefydlog wedi'u cau heb gynllunio gwneud hynny neu mewn argyfwng oherwydd diffyg yn yr adeilad neu staff ddim ar gael, a chyfrifo'r cyfanswm fel canran o gyfanswm yr oriau a gynlluniwyd i fod ar agor ar gyfer yr holl fannau gwasanaeth sefydlog yn ystod y flwyddyn;
 - b) nifer arosfannau'r llyfrgell deithiol ac/ neu wasanaethau cludo i'r cartref a gollwyd o ganlyniad i ddiffyg yn y cerbyd neu oherwydd nad oedd staff ar gael, fel canran o gyfanswm nifer arosfannau'r llyfrgell deithiol ac/ neu wasanaethau cludo i'r cartref a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn.

Nid yw peidio ag agor ar adeg oriau a drefnwyd o ganlyniad i dywydd gwael, neu unrhyw achos arall y tu hwnt i reolaeth y llyfrgell, yn cael eu cynnwys.



4. Adrodd, monitro ac asesu

Mae'r gofynion statudol ynghylch darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru i'w cael yn Neddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Bydd y dangosyddion perfformiad a restrir yma yn helpu Llywodraeth Cymru wrth asesu a yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf 1964 ai peidio, ac wrth asesu effeithlonrwydd dull darparu gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru.

4.1. Gofynion adrodd

Bob blwyddyn, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd am eu perfformiad yn erbyn gwahanol elfennau'r fframwaith. Bydd y ffurflen yn cynnwys sgôr cydymffurfio yn erbyn yr hawliau craidd – gan nodi a yw'r rhain wedi'u cyflawni'n llawn, eu cyflawni'n rhannol, neu heb eu cyflawni, ynghyd â disgrifiad/eglwurhad priodol. O ran pob hawl nad yw wedi'i bodloni'n llawn, dylai'r ffurflen adrodd hefyd gynnwys strategaeth ar gyfer gwella yn y flwyddyn ganlynol.

Bydd ffurflenni awdurdodau unigol hefyd yn cynnwys data sy'n dangos perfformiad yn erbyn dangosyddion ansawdd y fframwaith hwn, ynghyd â chymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Pan fo perfformiad wedi dirywio, dylai'r ffurflen gynnwys strategaeth yr awdurdod i atal y dirywiad. Pan nad yw targedau wedi cael eu cyrraedd, dylai'r ffurflen gynnwys naratif yn amlinellu cynigion ac amserlen i gyflawni'r targedau hyn. Caiff y data ei ddwyn ynghyd i roi trosolwg o wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, er mwyn cynorthwyo wrth adnabod arfer da, a nodi meysydd lle gall fod angen gweithredu i sicrhau gwelliannau.

Nid yw'n hawdd mesur effaith gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, sef y gwahaniaeth y mae'r gwasanaethau hynny yn ei wneud i fywydau pobl. Am y rheswm hwn, bydd elfen ansoddol yn cael ei gynnwys yn yr

adrodd. Dylai ffurflen adrodd pob awdurdod gynnwys o leiaf un, ond dim mwy na phedair, astudiaeth achos penodol yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi ei gael ar unigolyn, neu ar grŵp o unigolion, yn ystod y flwyddyn. Disgwylir i hyn ddisgrifio'r gwasanaeth a gynigwyd a'r defnydd a wneir ohono, yn ogystal â disgrifio'r effaith a gafodd y defnydd hwnnw ar yr unigolion neu'r grŵp. Rhoddir canllawiau ar fformat yr astudiaethau achos a'r deunydd priodol i'w gynnwys. Bydd astudiaethau achos o'r fath yn datblygu'n ffynhonnell dystiolaeth werthfawr ar effaith a gwerth, gan hyrwyddo lledaenu arfer da ymhellach ledled Cymru.

Ail elfen ansoddol yr adrodd bydd naratif sy'n dangos sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at agendâu awdurdodau lleol a nodau strategol a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys unrhyw fframweithiau ddeddfwriaethol perthnasol. Diben y llinyn adrodd hwn yw annog llyfrgelloedd i fod yn ymwybodol o'r ysgogwyr cymdeithasol ehangach (e.e. iechyd a lles; cynhwysiant digidol, gan gynnwys llythrennedd gwybodaeth; llythrennedd, gan gynnwys darllen a'r cysylltiad â llythrennedd digidol; ymgysylltu â'r gymuned a buddiannau i'r gymuned, gan gynnwys teuluoedd, plant a phobl ifanc, pobl hŷn, diwygio lles; iaith a diwylliant Cymru). Dylai gwasanaethau fedru gallu dangos eu bod yn cyfrannu at yr ysgogwyr hyn, a dangos yn glir pa mor berthnasol a gwerthfawr ydynt i wneuthurwyr polisi ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Rhaid cynnwys disgrifiad byr o gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer dyfodol y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol. Bydd yn ofynnol hefyd i awdurdodau gadarnhau bod adborth ar ffurf barn ar berfformiadau pob gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn wedi cael ei ystyried yn ddigonol gan yr aelod sy'n gyfrifol am wasanaethau llyfrgell a chan y gweithdrefnau perthnasol yn ymwneud â rheoli, craffu

a monitro perfformiad. Rhoddir templed adrodd i awdurdodau i sicrhau bod adroddiadau yn gyson ledled Cymru a bod modd eu cymharu.

4.2. Gweithdrefnau monitro ac asesu

Bydd y broses monitro ac asesu yn cael ei harwain gan IAALL: Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, a bydd yn dilyn y patrwm a sefydlwyd mewn fframweithiau blaenorol. Dylid cyflwyno'r ffurflenni blynyddol erbyn y dyddiad cau bob blwyddyn, a bydd adolygydd annibynnol a grŵp cyfeirio cydweithwyr yn eu harchwilio i sicrhau eu bod yn gyflawn. Bydd yr adolygydd annibynnol wedyn yn llunio adroddiad adborth ysgrifenedig ffurfiol yn sôn am bob agwedd ar y fframwaith, gan gynnwys yr holl ddangosyddion ansawdd a'r elfennau naratif, a chyflwynir yr adroddiad hwn i bob awdurdod yn yr hydref, mewn pryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd fel rhan o'u proses ffurfiol i gynllunio gwasanaethau. Anfonir yr adborth hwn yn ffurfiol at brif weithredwyr awdurdodau llyfrgell a hefyd at arweinwyr cynghorau, swyddogion craffu neu reolwyr perfformiad yn ogystal ag at reolwyr gwasanaethau llyfrgell. Bydd yr adroddiadau blynyddol yn cael eu gwneud yn gyhoeddus, drwy dudalennau gwe IAALL.

Bydd yr adolygydd annibynnol yn llunio trosolwg cryno bob blwyddyn, ac yn cynnwys dadansoddiad o berfformiadau yn gyffredinol yn erbyn yr hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd, ynghyd â thueddiadau arwyddocaol o fewn y perfformiadau hynny. Cyfrifir y perfformiadau uchaf, isaf a chanolrif yng Nghymru ar gyfer pob dangosydd pan fo hynny'n bosibl. Caiff y dadansoddiad cyffredinol ei gyflwyno i bob awdurdod lleol, fel rheol yn ystod seminar blynyddol. Ar ddiwedd cyfnod y fframwaith cyhoeddir adroddiad cryno drwy wefan IAALL.

Cyflwynir canfyddiadau'r prosesau hyn i sylw'r Gweinidog perthnasol yn flynyddol, gan amlygu cyflawniadau a thueddiadau yn ogystal â meysydd sy'n achosi problemau, megis perfformiadau sy'n dirywio, achosion o beidio â chydymffurfio neu fethu dro ar ôl tro, ynghyd â diagnosis o'r achosion lle bo hynny'n bosibl. Tynnir sylw'r Gweinidog hefyd at welliannau gwerth sylwi arnynt mewn perfformiadau a thueddiadau tuag at wella.

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd a nodir yn y fframwaith hwn yn ymwneud ag agweddau ar y gwasanaeth llyfrgell y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sy'n angenrheidiol – ond nad ydynt o reidrwydd yn ddigonol – ar gyfer darparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon o dan amodau Adran 10 Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

Mewn achos o fethu â darparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon, gall Llywodraeth Cymru gychwyn ymchwiliad, rhoi cyfarwyddyd a throsglwyddo swyddogaethau'r awdurdod llyfrgelloedd i'r Llywodraeth ei hun neu i awdurdod/ sefydliad arall. Gellid troi at sancsiynau mewn achosion, er enghraifft, pan nad yw nifer sylweddol yr hawliau craidd a'r targedau perfformiad wedi'u cyflawni, pan fo methiant cyson i gyrraedd perfformiad cyfartalog awdurdodau tebyg yng Nghymru a dim tystiolaeth o welliant dros gyfnod o amser, neu pan fo perfformiad ledled y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn gostwng yn gyson flynyddyn ar ôl blwyddyn.

Hyd yma, ni fu raid gweithredu unrhyw un o'r sancsiynau hyn oherwydd trafodaeth adeiladol rhwng pawb perthnasol.

5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol



Mae gan lyfrgelloedd gyfraniad clir i'w wneud i saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

5.1. Cymru lewyrchus

Mae datblygu poblogaeth fedrus sydd wedi cael addysg dda yn elfen sylfaenol o weithgarwch llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae enghreifftiau o sut y caiff hyn ei gyflawni yn cynnwys darparu mynediad i fyd o ddysgu gydol oes trwy stoc lyfrau perthnasol a gwybodaeth ar-lein, a darparu offer TG, band eang a Wi-Fi yn rhad ac am ddim, gan eu bod yn cefnogi addysg, busnesau bychain a chwilio am waith. Mae hawliau craidd 2, 3, 6 a 7, a'r dangosyddion ansawdd 1, 3, 5, 7, 8, 9, 12, 13 a 15 oll yn monitro agwedd ar gyfraniad llyfrgelloedd cyhoeddus at y nod hwn.

5.2. Cymru gydnerth

Cefnogir cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd trwy annog a hyrwyddo datblygiad personol unigol, gan alluogi pobl a chymdeithas i addasu i amgylchiadau sy'n newid.

Mae ymgynghori rheolaidd â defnyddwyr yn sicrhau bod y gwasanaethau eu hunain yn gydnerth a chadarn ac yn gallu addasu i anghenion sy'n newid. Mae dwy hawl graidd yn arbennig o berthnasol yma, sef 3 ac 11, ynghyd â dangosyddion ansawdd 4, 11 a 14. Mae enghreifftiau o sut y caiff hyn ei gyflawni yn ymarferol yn cynnwys cymorth i gael y gymuned yn fwy o ran o redeg gwasanaethau llyfrgell, a stoc lyfrau sy'n annog ffordd o fyw sy'n fwy cydnerth gyda mynediad at TG er mwyn i bobl fedru addysgu eu hunain yn hyn o beth.

5.3. Cymru iachach

Mae lles y meddwl a'r corff yn rhan allweddol o'r hyn y mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn ei gynnig, nid yn unig drwy ddarparu gwybodaeth i fod yn sail i ddewisiadau gwybodus er budd iechyd yn y dyfodol, ond hefyd drwy gasgliadau penodol a chynlluniau megis benthyca teitlau Presgripsiwn Llyfrau Cymru trwy lyfrgelloedd, a hynny o fudd uniongyrchol i unigolion sydd â phryderon iechyd. Yr hawliau craidd perthnasol ar gyfer y nod hwn yw 3 a 4; mae dangosyddion ansawdd 1, 4, a 6 yn monitro gweithgarwch.

5.4. Cymru sy'n fwy cyfartal

Mae llyfrgelloedd yn groesawgar a chynhwysol ac yn cynnig gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd ac allgymorth rhagweithiol mewn cymunedau difreintiedig a rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol. Mae cymorth ar gyfer mentrau'r llywodraeth megis Universal Jobmatch a Chredyd Cynhwysol yn galluogi pobl heb sgiliau neu gyfleusterau TG i gyflawni eu potensial. Mae hawliau craidd 1, 2, 4, 6 a 7, a dangosyddion ansawdd 3, 4, 11, 13 a 14 oll yn monitro cyfraniad llyfrgelloedd cyhoeddus at y nod hwn.

5.5. Cymru o gymunedau cydlynus

Mae llyfrgelloedd yn cynnig lle diogel a niwtral yn y gymuned i gynnig cyfleoedd i bobl gysylltu â'i gilydd. Mae'r model canolfan neu siop un alwad sy'n cael ei ddatblygu mewn sawl ardal yn cysylltu ymhellach gymunedau lleol â'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys cymorth i gymryd rhan yn y gymuned trwy ddarparu gwybodaeth am yr ardal leol. Mae hawliau craidd 1, 3 a 5, a dangosyddion ansawdd 1, 6, 13 a 16 yn monitro agweddau ar gyfraniad llyfrgelloedd cyhoeddus at y nod hwn.

5.6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Gan fod darpariaeth benodol yn y fframwaith cyfredol yn ymwneud â darparu deunydd yn yr iaith Gymraeg, mae llyfrgelloedd mewn sefyllfa dda i gyfrannu yn y maes hwn. Maent yn hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg, ac yn annog cymryd rhan yn y celfyddydau a hamdden drwy gael ystod dda o stoc yn y Gymraeg, a lluo o ddigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol. Mae'r hawliau craidd 2, 3, 6, 8, 9, a 10, a'r dangosyddion ansawdd 2, 6, 8, 9 ac yn enwedig 10, oll yn berthnasol yma.

5.7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae ymrwymiad i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau wedi'i ymgorffori yn y dangosyddion ansawdd. Mae IAALL yn gweithio gyda'r Sefydliad Safonau Prydeinig a'r Corff Safonau Rhyngwladol (ISO) i ddatblygu a defnyddio dangosyddion ansawdd ar gyfer llyfrgelloedd sy'n cydymffurfio ag ISO 11620.

Ymhellach, mae benthyca llyfrau yn ddull ailgylchu gwych, yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio gyda'i gilydd mewn consortia prynu llyfrau, consortia digidol/ e-lyfrau a'r System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan. Mae hawl graidd 12 yn ymwneud yn uniongyrchol ag arfer da byd-eang, tra bod dangosyddion ansawdd 14 a 15 yn gysylltiedig â chydbwysedd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau a ddarperir.

6. Llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned



Ers tua 2014, mae nifer y llyfrgelloedd annibynnol a lled-annibynnol yng Nghymru wedi cynyddu, sef llyfrgelloedd y cyfeirir atynt yn aml fel rhai a reolir gan y gymuned. Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 ar lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned bellach wedi'u diweddarau ac wedi'u cynnwys yma yn hytrach nag mewn dogfen ar wahân, fel o'r blaen.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned yn argymhell os yw llyfrgelloedd o'r fath i gael eu hystyried yn rhan o ddarpariaeth statudol yr awdurdod, yna rhaid iddynt fodloni'r hawliau craidd sydd yn fframwaith y Safonau. At ddibenion chweched fframwaith safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru, bydd modd ystyried cynnwys llyfrgelloedd a reolir gan gymuned yn y ffurflen os ydynt yn cael cefnogaeth barhaus gan wasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol o ran rhannu adnoddau, staff cymwysedig a phrofiad 'di-dor' i'r

cwsmer. Er enghraifft, gall y llyfrgelloedd sy'n cydymffurfio â'r modelau canlynol fod yn gymwys:

- Elfennau o adnoddau a staff wedi'u darparu neu eu cydlynu gan y gwasanaeth llyfrgell lleol, gyda'r adeilad dan berchnogaeth gymunedol, cyfraniad gan y cyngor cymuned tuag at staffio, a'r staff wedi'u cyflogi gan y gwasanaeth llyfrgell.
- Y gwasanaeth llyfrgell lleol yn darparu peth adnoddau a staffio rheolaidd (oriau penodol), yr adeilad dan berchnogaeth gymunedol a cheir cymorth gan wirfoddolwyr.

Nid yw modelau yn gymwys i'w cynnwys os ydynt yn golygu trosglwyddo'r adeilad ac adnoddau i'r gymuned a'u rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr gydag ychydig iawn (neu ddim) cymorth parhaus gan y gwasanaeth llyfrgell lleol wrth reoli'r cyfleuster.

Sylweddolir y gall modelau gwahanol fod mewn bodolaeth o fewn awdurdod unigol, felly gallai rhai llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned gael eu cynnwys yn y ffurflen, er nad rhai eraill o bosibl. I ystyried yn llawn a all llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned gael eu cynnwys yn y gwasanaeth statudol, dylid cyflawni'r holl feini prawf sylfaenol canlynol, ynghyd â bodloni'r holl hawliau craidd:

- Cytundeb lefel gwasanaeth i gynnwys gweithgareddau rhannu adnoddau megis benthyciadau rhwng llyfrgelloedd;
- Staff cyflogedig, boed wedi'u hariannu gan wasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol neu o ffynonellau eraill (e.e. cynghorau cymuned), ac sydd ar gael am 50% o oriau agor y llyfrgell a bennir yn y cytundeb lefel gwasanaeth;
- Darparu ystod o ddeunyddiau, e.e. llyfrau, deunydd amlgyfrwng/clyweledol, mynediad i'r Rhyngwrwd a staff i gefnogi defnyddio a mynediad at yr adnoddau hyn;
- Cymorth yr awdurdod ar gyfer y cyfleusterau TGCh, a ddylai fod yn rhad ac am ddim i'w defnyddio;
- Cael defnyddio a mynediad llawn at gatalog llyfrgell yr awdurdod lleol, gan gynnwys y gallu i wneud ceisiadau, ar ran aelodau'r cyhoedd. Byddai disgwyl i staff cyflogedig gael mynediad i'r 'LMS'.

Diben y meini prawf hyn yw sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus cynhwysfawr, effeithlon ac o ansawdd uchel a ystyrir i fod yn deilwng o'r gwasanaeth statudol. Mae'n bosibl i lyfrgell a reolir gan y gymuned gyflawni'r holl feini prawf arfaethedig a amlinellir uchod, ac os ydynt yn bodloni'r rhain a'r hawliau craidd, yna gellir eu hystyried i'w cynnwys fel rhan o ddarpariaeth statudol awdurdod lleol o wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus.

Fel y nodwyd uchod, mae hyn yn gyraeddadwy drwy fynd i bartneriaeth â gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yr awdurdod lleol ac/neu weithio gyda grwpiau a chynghorau cymuned.

6.1. Adrodd a chasglu data

Os yw awdurdod yn ystyried bod llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned yn rhan o'r gwasanaeth statudol ac yn cael eu cynnwys yn y ffurflen flynyddol, yna mae'r ddogfen canllawiau a pha ddata i'w gasglu, a sut, yn berthnasol i'r holl lyfrgelloedd. Dylid bod yr un mor drylwyr wrth gasglu data mewn llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned fel y gwneir mewn llyfrgelloedd eraill.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru am fonitro'r gefnogaeth a'r adnoddau a roddir i lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned yn yr awdurdod, ac i ba raddau y maent wedi eu cynnwys yn y dangosyddion yn y fframwaith hwn. Felly gofynnir i bob awdurdod ddarparu'r wybodaeth ganlynol, fel rhan o'r data cyd-destunol yn y ffurflen:

- a)** Nifer y llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned y mae'r awdurdod yn darparu'r canlynol iddynt:
- i. Staff cyflogedig
 - ii. Cael defnyddio a mynediad llawn at gatalog llyfrgell yr awdurdod lleol ar ran aelodau'r cyhoedd
 - iii. Cymorth ar gyfer y cyfleusterau TGCh
 - iv. Gwasanaethau rhannu a chylchdroi stoc
 - v. Cytundeb lefel gwasanaeth gan gynnwys gweithgareddau rhannu adnoddau megis benthyciadau rhwng llyfrgelloedd
- b)** Cyfanswm oriau agor blynyddol llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned o fewn yr awdurdod.
- c)** Cyfanswm nifer oriau staff am y flwyddyn sydd wedi'u neilltuo'n benodol i gefnogi llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned. Dylech gynnwys staff rheng flaen a chymorth rheolwyr ac amser gweinyddu.

Gofynnir am ffigyrau ar wahân ar gyfer yr uchod parthed y llyfrgelloedd hynny a reolir gan y gymuned sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen (h.y. y rheiny sy'n bodloni pob un o'r pum pwynt bwled uchod), a'r rhai nad ydynt wedi'u cynnwys, os yw'r ffigyrau ar gael.



Clodydd Delwedd

Pob delwedd © Llywodraeth Cymru -
Llyfrgelloedd Cymru oni nodir yn wahanol

Tud. 1: Llyfrgell Ganolog Wrecsam

Tud. 3: Ken Skates AC (delwedd: © Hawlfraint y
Goron (2017) Croeso Cymru)

Tud. 5: Top: Llyfrgell Llanelli, Canol: Llyfrgell Rhyl,
Gwaelod: Llyfrgelloedd Torfaen

Tud. 7: Top: Grŵp hyfforddi cyfrifiaduron, Llyfrgell
Prestatyn, Gwaelod: Llyfrgell Cwmbrân

Tud. 8: Llyfrgell Llanelli

Tud. 9: Llyfrgell Caerfyrddin

Tud. 11: Grŵp cyd-ddarllen yng Nghartref Preswyl
Tŷ Cae Nant, Llyfrgelloedd Torfaen

Tud. 12: Gwasanaeth darllen yn y cartref,
Llyfrgelloedd Torfaen

Tud. 14: Grŵp babanod a phlant bach,
Llyfrgell Prestatyn

Tud. 18: Ystafell cyfeirio, Llyfrgell Llanelli

Tud. 19: Seren Walker, Llyfrgell Cwmbrân

Tud. 21: Grŵp trafod cyfrwng Cymraeg,
Llyfrgell Abercynffig

Tud. 24: Ymweliad ysgol, Maesteg,
Pen-y-bont ar Ogwr

Tud. 26: *All Stitched Up* (grŵp gwnïo),
Llyfrgell Coed Duon

Tud. 28: Llyfrgell Rhisga